

Catchphrase 2004: Ysbyty Brynaber - Week 58

Key Language

Comparison of irregular adjectives
Personal forms prepositions

New Words

Difrod	damage
Holhti	split
Rhwygo	to rip
Cysur	comfort
Yswiriant	insurance
Torri ar draws	to cut across
Etifeddu	to inherit
Tolciau	dents
Dala (SW)	to hold
Awgrymu	to suggest
Trwsio	to repair
Deintydd	dentist
Brys	a hurry
Ymweliad	visit
Morthwyl	a hammer
Haeddu	to deserve
O flaen dy well	in court (lit. before your betters)
Adeg yma y llynedd	this time last year
Barus	greedy
Gwthio	to push
Cynnig	to offer
Gwybodaeth	information
Profiad	experience
Siarad yn blaen	to speak plainly
Cyd-fyw	to cohabit
Cloeon	door locks
Trin	to treat
Taclus	tidy
Dogfennau	documents
Disgwyl	to expect
Ymladd	to fight
Bwriadu	to intend
Cadw golwg	to keep an eye on
Buan	quickly
Cuddio	to hide
Unswydd	with one intention
Busnesa	to interfere
Cymodi	to reconcile
Ffwl Ebrill	April Fool

Main Grammatical Points

Comparison of irregular adjectives

A number of irregular comparative forms of adjectives feature in this week's episodes. Let's take a closer look at some of them:

Drwg cynddrwg â/mor ddrwg â gwaeth gwaethaf

Dwi ddim yn cofio storm waeth ers amser

I don't remember a worse storm for some time

Note the form **gwaethaf** - the worst

Although the last letter in written Welsh is **gwaethaf**, in speech, this **f** is lost and it becomes gwaetha.

Note also that with the superlative forms (those adjectives ending in est) the emphatic sentence must be used - the verb does not come at the beginning of the sentence.

Fe ydy'r gwaetha
Hi ydy'r lleia.
Nhw ydy'r ola

Note that whatever the tense the verb will always be in the third person

Nhw oedd y gwaetha
Ti fydd y cynta

It's also worth noting that whereas in English when comparing two objects that the comparative form is used

Tom and Paul - Tom is the taller

In Welsh we use the superlative degree - Tom ydy'r tala

Here are a few other irregular adjectives:

Mawr (big)	cymaint â (as big as)	mwy (bigger)	mwya (biggest)
Bach (small)	cyn lleied â (as small as)	llai (smaller)	lleia (smallest)
Da (good)	cystal(as good as)	gwell (better)	gorau (best)

Brian says:	Ar eich ôl chi Arwyn	After you Arwyn
And later he says	Dw i newydd dorri ar eich traws chi	I've just cut across you

Note the personal forms of the preposition where in Welsh the preposition has two elements:
Ar ôl the pronoun comes before and after the second element

Ar fy ôl i
Ar dy ôl di
Ar ei ôl e/o
Ar ei hôl hi
Ar eich ôl chi
Ar ein hôl ni
Ar eu hôl nhw

Ar draws

Ar fy nhraws i
Ar dy draws di
Ar ei draws e/o
Ar ei thraws hi
Ar ein traws ni
Ar eich traws chi
Ar eu traws nhw

Note however that when a noun is used it follows the preposition:

Yn lle'r ferch instead of the girl

Yn erbyn Gareth against Gareth

Other prepositions that follow the same pattern:

Yn lle (instead of)	yn fy lle i	instead of me
O flaen (in front of)	o fy mlaen i	in front of me
Yn ymyl (near)	yn dy ymyl di	near you
Wrth ochr (by the side of)	wrth ein hochr ni	by our side
Yn erbyn (against)	yn eu herbyn nhw	against them

Ysbyty Brynaber: Episode 172

Brain and Arwyn discuss the damage done to the Mary Rose.

Jac Whelan meets Agnes at the hospital - despite Jac's pleas Agnes refuses to talk to him.

Geirfa

Difrod	damage
Holtti	split
Rhwygo	to rip
Cysur	comfort
Yswiriant	insurance
Torri ar draws	to cut across
Etifeddu	to inherit
Tolciau	dents
Dala (SW)	to hold
Awgrymu	to suggest
Trwsio	to repair
Deintydd	dentist
Brys	a hurry
Ymweliad	visit
Morthwyl	a hammer

Golygfa 1

Arwyn - Roedd hi'n yffach o storm.

Brian - Oedd. Dw i ddim yn cofio storm waeth ers amser.

Arwyn - Dyna sut mae mis Mawrth ynte...?

Brian - Ie. Wel, diolch am ddod hefo fi i weld y difrod i'r llong, Arwyn...

Arwyn - Dw i'n synnu fod cymaint o ddifrod wedi digwydd.

Brian - Fydd dim posib iddi hwylio am o leia dair wythnos.

Arwyn - Na fydd.

Brian - Yr unig gysur ydy fod y cwbl ar yswiriant.

Arwyn - Dwi'n cofio bachan un tro...Beth oedd ei enw fe nawr? Sori. Dw i'n ffael cofio, ond fe ddaw e yn ôl i fi...

Brian - Diod Arwyn?

Arwyn - Pam lai?

Brian - Sori. Mae'n ddrwg gen i: dw i newydd dorri ar eich traws chi...Roeddech chi wrthi'n deud...

Arwyn - Dewi. Ie. Dyna beth oedd 'i enw fe...Dewi.

Brian - Afternoon, Benny...Yes, same as usual, please...Arwyn?

Arwyn - My usual tippie, Benjamin if you would be so kind...Ac roedd yacht 'da Dewi 'ma. Yacht oedd e wedi etifeddu gen rhywun...Wel roedd golwg ofnadwy arni...

Brian - Gwaeth nag oedd ar y Mary Rose gynnu?

Arwyn - Gwaeth o lawer.

Brian - Beth oedd y difrod felly?

Arwyn - Y 'stern' wedi'i holli. Tolciau mawr yn yr 'hull'. A'r rhan fwya o'r 'foredeck glassing' wedi ei rwygo mas a rhai o'r 'bolts' oedd yn dala'r 'swing keel' wedi torri...

Brian - Dipyn o lanast...

Arwyn - Doedd y cwmni yswiriant ddim eisiau gwbod 'bytu hi.

Brian - Written off?

Arwyn - Yn llwyr.

Brian - A beth ddigwyddodd?

Arwyn - Daeth Dewi ata i...Ac awgrymes i yr un boi a dw i wedi awgrymu i chi bore yma, Brian...

Brian - Ac mi gafodd o ei thrwsio hi?

Arwyn - Roedd y llong fel newydd...Thank you, Benjamin..

Brian - I'r Mary Rose!

Arwyn - Ie. Y Mary Rose.

Brian - Gan obeithio bydd hi'n hwylio eto ar y môr.

Golygfa 2

Jenny - Agnes?

Agnes - Jenny.

Jenny - Wyt ti ar frys?

Agnes - Dw i newydd gwplu ngwaith jest nawr. A dw i'n moyn codi Beca o'r ysgol...

Jenny - Beth? Ydy hi'n sâl?

Agnes - Nac ydy. 'Appointment' deintydd.

Jenny - Ydy hi'n nerfus?

Agnes - Nac ydy - ddim o gwbl. Well i fi fynd...

Jac - Mrs R.

Agnes - Jac.

Jac - Ydy'r lle yma ar dân neu beth?

Agnes - Sori?

Jac - Eich gweld chi'n rhedeg...

Agnes - Dw i ar dipyn bach o frys...

Jac - Rôn i wedi gobeithio cael chat...

Agnes - Chat?

Jac - Ond ddim rwan, mae'n amlwg.

Agnes - Pam? Beth ydych chi eisiau?

Jac - Allwn ni fynd i rywle mwy preifat?

Agnes - Ddim nawr. Does dim amser 'da fi...

Jac - Gawn ni sgwrs rywbryd eto 'ta...

Agnes - Beth ydych chi eisiau, Jac?

Jac - Sgwrs weddol hir.

Agnes - Brian sydd wedi'ch hala chi ato i?

Jac - Nage.

Agnes - Brian sydd tu ôl i'r ymweliad 'ma ynte?

Jac - Ddim o gwbl..

Agnes - Dw i ddim yn dwp, Jac!

Jac - Does gan Brian ddim byd â hyn.

Agnes - Wy'n siwr.

Jac - Onest nawr.

Agnes - Onest, wir. Fyddech chi ddim yn nabod y gair 'onest' pe byddai e'n eich bwrw chi ar eich pen 'da morthwyl... Mae'n flin 'da fi.

Jac - Mae'n O.K. Dw i'n gwybod fy mod i ddim yn eich 'top 10 chi of the most likeable people in the world you would like to have romantic candle-lit dinner for two with, Mrs R'. Ond mae hyn yn eitha pwysig...

Agnes - Rhaid i fi fynd...

Jac - lawn...

Agnes - Ond gadewch inni siarad rywbryd eto, ie?

Ysbyty Brynaber: Episode 173

At the Yacht Club Arwyn tells Brian that he has received a letter notifying him that he has been accused of medical negligence.

Jac Whelan calls to see Jenny. He asks her for information about Dic Allen so that his private detective friend can start his search for the missing doctor. Jenny pays Whelan a substantial sum of money for the job.

Geirfa

Haeddu	to deserve
O flaen dy well	in court (lit. before your betters)
Adeg yma y llynedd	this time last year
Barus	greedy
Gwthio	to push
Cynnig	to offer
Gwybodaeth	information
Profiad	experience

Golygfa 2

Brian - ...Wendy, Wendy - aros rwan? Wendy!

Arwyn - Peint arall, Brian?

Brian - Hanner.

Arwyn - Dere.

Brian - Na. Hanner. Dydy Wendy ddim yn hapus iawn fy mod i yma o gwbwl...

Arwyn - Rwyt ti'n gweithio'n galed. Rwyt ti'n haeddu 'drink' ar ddiwedd y dydd. Wy'n mynd i godi peint iti.

Brian - Wendy, gwranda...Fydda i yn ôl adra rwan mewn deg munud...Na, hefo Arwyn ydw i...Arwyn Saunders, ia...Nac ydy, dydy Jac Whelan ddim yma...Wendy - plis...Dim ond imi orffen beth sydd gen i yn y gwydryn peint 'ma ac mi fydda i yn ôl adra hefo ti cyn iti allu dweud 'Yacht Club.'...

Ydy annwyd Vicky yn well? Wel, beth arall wyt ti wedi roi iddi? Wnest ti fel dwedodd y nyrs? ...Dim ots...Mi fydda i adref mewn deg munud rwan...Hwyl.

Arwyn - Iechyd da iti...

Brian - Iechyd da... doedd dim raid iti brynu peint arall imi...

Arwyn - Rwyt ti'n ei haeddu fe, Brian...Dyma ti.

Brian - Beth ydy o?

Arwyn - Darllen e...

Brian - Ie...

Arwyn - Rwyt ti'n ei ailddarllen e?

Brian - Ydw...

Arwyn - Roeddwn i'n meddwl gallet ti roi ambell 'tip' i fi.

Brian - 'Tip'?

Arwyn - Roedddest ti o flaen dy well adeg yma llynedd on'd oedddest?

Brian - Oeddwn. Roeddwn i a Jac Whelan yn Llys y Goron.

Arwyn - A dyna ble fydda i. 'Medical negligence'. Mae teulu y fenyw Eirwen Davies 'ma'n benderfynol o fynd a fi o flaen fy ngwell...

Brian - Rwyt ti'n mynd i ymladd dy achos gobeithio?

Arwyn - Dw i'n mynd i ymladd y cyhuddiadau yma reit i'r pen.

Brian - Da iawn.

Arwyn - O, ydw. Efallai fy mod i'n ddi-wraig. Efallai fy mod i'n bwrw'r botel. Efallai bod fy mywyd i'n racs. Ond dw i'n benderfynol o ymladd y bobl barus 'ma. Ar ôl arian maen nhw. Arian 'compensation' mawr a dim byd arall.

Golygfa 2

Jenny - Helo...?

Jac - Fi sy 'ma.

Jenny - Gwthiwch y drws...

Jac - Diolch.

Heia...Mae hi'n dipyn o step i fyny'r grisiau yna...

Jenny - Ydy, yn anffodus, mae 'na dipyn o step...

Jac - Neu dw i ddim yn ffit iawn...

Jenny - Rydych chi'n edrych yn reit ffit i fi.

Jac - Ydych chi'n meddwl?

Jenny - Ydw.

Jac - Diolch am y 'compliment'...

Jenny - Dewch drwodd i'r lloft... Alla i gynnig diod ichi?

Jac - Na. Ddim heno. Mae'n rhaid imi fynd. Dw i wedi trefnu gweld rhywun arall. Ond fel gwnes i addo ichi, dyma fo'r 'bump'...

Jenny - Diolch...

Jac - Dw i wedi siarad hefo boi o Birmingham. Duncan ydy ei enw fo. Mae o'n rhedeg 'detective agency'. A'r cwbl mae o eisiau ydy pob gwybodaeth posib am Doctor Richard Allen...

Jenny - Dydy hynny ddim yn broblem.

Jac - Da iawn...

Jenny - Dw i wedi rhoi lluniau ichi on'd do?

Jac - Do. Ond os oes gynnoch chi rai eraill, gora oll, meddai Duncan.

Jenny - Mi wna i fy ngorau.

Jac - Unrhyw gwestiynau? ..Yr unig beth wna i ddweud ydy mai Duncan ydy'r gora. 'Top notch' detective. Mae ganddo fo flynyddoedd o brofiad o ddod o hyd i bobol sydd wedi mynd ar goll...

Jenny - Fydd hi'n bosib imi gwrdd â Duncan?

Jac - Bydd...

Jenny - Pryd?

Jac - Pan ddaw o i lawr yma i ddechrau ar ei waith.

Jenny - A dyna pryd bydda i'n talu iddo fo?

Jac - Na gallwch chi dalu i fi rwan. Talu mewn 'installments' bydd 'clients' Duncan...

Jenny - Iawn. I bwy dw i'n gwneud y cheque?

Jac - Duncan Healy Associates Ltd.

Jenny - A faint oedd y ffi eto?

Jac - I ddechrau. Mil pum cant o bunnoedd. 'Expenses' ac yn y blaen...

Ysbyty Brynaber: Episode 174

Jac Whelan offers to mediate between herself and her estranged husband. Agnes tells him that despite everything she wants him back.

Jenny calls to see Arwyn at his bedsit. He tells her of the impending court case.

Jac Whelan tells Brian that, following his conversation with Agnes, she does not want him back under any circumstances. Brian is not very happy.

Geirfa

Siarad yn blaen	to speak plainly
Cyd-fyw	to cohabit
Cloeon	door locks
Trin	to treat
Taclus	tidy
Dogfennau	documents
Disgwyl	to expect
Ymladd	to fight
Bwriadu	to intend
Cadw golwg	to keep an eye on
Buan	quickly
Cuddio	to hide
Unswydd	with one intention
Busnesa	to interfere
Cymodi	to reconcile
Ffwl Ebrill	April Fool

Golygfa 1

Agnes - Plis, Jac. Dw i ddim eisiau trafod rhagor.

Jac - Fel dwedais i. Yma i helpu chi ydw i...

Agnes - Does neb na dim yn mynd i allu fy helpu fi. Dydy Brian yn mynd i adael y fenyw 'na ydy e?

Dydy Brian ddim yn mynd i ddod nôl ato i ydy e?

Jac - Pam ydych chi'n deud hynny, Mrs R?

Agnes - Achos dw i'n gwybod...

Jac - Alla i siarad yn blaen am eiliad?

Agnes - Gallwch...

Jac - Dydych chi ddim wedi siarad hefo Brian ers pythefnos a mwy...Dydych chi ddim yn gwybod sut mae o'n teimlo erbyn hyn...Ond rydw i...

Agnes - Beth ydych chi'n drïo ddweud?

Jac - Dweud ydw i fod Brian ddim yn hapus. Dydy Brian ddim yn hapus o gwbl. Pa ddyn fasai yn hapus yn trio cyd-fyw hefo rhyw 'idiot' fel yr hogan Keating 'na?

Agnes - Wy'n ddim yn mynd i'w gymryd e yn ôl.

Jac - Ond rydych chi isio fo yn ôl on'd ydych chi, Mrs R?

Agnes - Dwi i'n ffaelu. Ddim ar ôl sut mae e wedi fy nhrin i.

Jac - Ond rydych chi eisiau o yn ôl?

Agnes - ...Ydw.

Jac - Gadewch i mi helpu chi.

Golygfa 2

Jenny - Arwyn?

Jenny - Wyt ti'n dal yn dy wely...?

Arwyn - Beth wyt ti eisiau?

Jenny - Pw! Oglau sigarets. Dwyt ti ddim yn smocio yn y gwely gobeithio?

Arwyn - Jenny - pam wyt ti wedi galw yma?

Jenny - Ga i ddod i mewn?

Arwyn - Os wyt ti eisiau...
 Jenny - Wna i ddim aros yn hir...
 Arwyn - Eistedda...
 Jenny - Ydy o'n wir...?
 Arwyn - Beth nawr?... Bod teulu Eirwen Davies yn mynd â fi i'r llys am ddiolfalwch meddygol? Ydy.
 Mae e. Dw i wedi derbyn y dogfennau.
 Jenny - A beth wyt ti'n mynd i wneud?
 Arwyn - Beth wyt ti'n disgwyl i fi wneud?
 Jenny - Eu hymladd nhw, gobeithio.
 Arwyn - Ie. Dyna ti. Dyna beth wy'n bwriadu wneud.
 Jenny - Dw i'n poeni dy fod ti'n yfed cymaint.
 Arwyn - Dw i ddim yn yfed cymaint â hynny.
 Jenny - Ddim dyna beth dw i'n glywed,
 Arwyn - Mae 'da ti bobl yn cadw golwg arna i, oes?
 Jenny - Nac oes. Mae hon yn dre fach iawn. Buan iawn mae pobol yn dod i glywed pob un dim am bawb. Does neb yn gallu cuddio dim byd yn hir iawn..

Golygfa 3

Brian - Galw ar Agnes? Pryd?
 Jac - Bora 'ma.
 Brian - Beth? Est ti draw yn unsydd i'r ty i weld Agnes?
 Jac - Do. Dw i wedi bod yn poeni gymaint amdanat ti, mêt. Ac roeddwn i eisiau gweld beth oedd ganddi i ddweud...Dwyt ti ddim yn meddwl fy mod i'n busnesa wyt ti?
 Brian - Nac ydw, nac ydw. Beth oedd gan Agnes i ddweud felly?
 Jac - Bad news, mêt.
 Brian - Pam?
 Jac - You've really burnt your bridges there.
 Brian - Beth? Does dim cymodi i fod...?
 Jac - Dydy hi ddim hyd yn oed eisiau siarad hefo ti, mêt. Rwy'ti'n 'outcast'. Rwy'ti'n 'scum'. Rwy'ti'n ...wel...you get the picture.
 Brian - A dydy hyn ddim yn Ffwl Ebrill?
 Jac - Wish it were. Only wish it were. Ond dyna beth ddwedodd hi wrtho fi. Dweud ei bod hi byth eisiau dy weld ti eto. Doesn't even want to speak to you. It's over. It's finished. Your marriage is stone cold dead...
 Brian - Mae'n ddrwg gen i glywed hynna.
 Jac - A fi.
 Brian - Diolch iti am drio siarad hefo hi. Doedd dim rhaid iti am fynd at Agnes, Jac. Dwi'n siwr fod hynny heb fod yn hawdd i ti...
 Jac - I wish I could have been more positive. Ond: look on the bright side: mae Wendy yn good egg.
 Jac - Ac rydych chi'n solid. Ti a Wendy.
 Brian - Ddim mor solid ag oeddwn i ac Agnes. Dyna'r paradox.

Synopsis

The storm had caused considerable damage to Brian's yacht which meant that Jac Whelan's plan had to be postponed for the time being.

Arwyn Saunders has received a letter telling him that he is to be sued for medical negligence, a charge which Arwyn intends to fight.

Jac Whelan has told Jenny that he knows of private detective firm who can trace down Dic Allen. Jenny makes down payment of £1500 for the job.

Jac met Agnes who told him that she wanted Brian to return home. Jac promised her that he would help both of them. However when he met Brian he had a different story to tell him.

Test yourself

1. How would you say 'as small as' in Welsh?
 - a) cyn llai na
 - b) **cyn lleied â**
 - c) cyn fach â
2. How would you translate 'she's the tallest' into Welsh?
 - a) **hi ydy'r tala**
 - b) mae hi'n dala
 - c) hi sy'n dala
3. What is the Welsh for 'after you'?
 - a) **ar dy ôl di**
 - b) ar ôl ti
 - c) ar ôl chi
4. What is the Welsh for 'against them'?
 - a) yn erbyn nhw
 - b) yn eu erbyn nhw
 - c) **yn eu herbyn nhw**
5. Which idiom is used in Welsh to say that someone is in court?
 - a) i fyny yn y llys
 - b) **o flaen ei well**
 - c) i lawr i'r llys
6. What is the Welsh for 'to keep an eye on'?
 - a) cadw llaw ar
 - b) **cadw golwg ar**
 - c) cadw meddwl ar